Rhif: **WG27349**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cod Ymarfer mewn perthynas â Rhan 10 o'r Ddeddf

Dyddiad cyhoeddi: **Rhagfyr 2015**

OGL ISBN Digidol 978 1 4734 5515 3 © Hawlfraint y Goron 2015

# Cod Ymarfer mewn perthynas â Rhan 10 o’r Ddeddf – Crynodeb o’r Ymgynghoriad

**Cynnwys** **Tudalen**


**Adran 1**

**Cyflwyniad** 2

**Cefndir** 2

**Y dystiolaeth ar gyfer newid** 3

**Y cynnig** 4

**Adran 2**

**Ymateb i Gwestiynau’r Ymgynghoriad** 7

**Dadansoddiad Llywodraeth Cymru** 21

**Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr** 23

## Adran 1

## Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i'r fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gyfer y cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag Eiriolaeth a rhannau cysylltiedig yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y cod) o 8 Mai – 31 Gorffennaf 2015.

Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori i’r canlynol:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru
- Y Comisiynydd Plant
- Y Comisiynydd Pobl Hŷn
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
- Rhwydwaith Gwella Sefydliadau Diogel
- Pwyllgor Meddygol Cymru
- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
- Cyngor Gofal Cymru
- Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) Cymru

Cafwyd cyfanswm o 81 o ymatebion. Atodir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A. Ceir crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn Adran 2.

### Cefndir

Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith statudol newydd fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Mae’r tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Mae’r ymgynghoriad ar y rheoliadau a’r codau ymarfer a gaiff eu gwneud o dan y Ddeddf a’r broses o’u gosod gerbron y Cynulliad yn cael eu cynnal mewn dwy gyfres

yn bennaf. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o’r ail gyfres. Y bwriad yw gosod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad o fis Mai 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd cyn iddynt gael eu rhoi ar waith ar 6 Ebrill 2016.

**Y dystiolaeth ar gyfer newid**

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru. Caiff 150,000 o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl gymorth ganddynt bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i’w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae'r gymdeithas yn newid a rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid mewn ymateb i hyn. Bu newid yn nisgwyliadau'r cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a bydd hyn yn parhau, o ganlyniad i newid demograffig a newidiadau yn ein cymdeithas. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol addasu ac ymateb i bob un o'r rhain.

At hynny, mae'r galw yn cynyddu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn un anodd. Er ein bod wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, mae angen inni wneud newid mwy sylfaenol na dim ond mynd ar drywydd y mesurau effeithlonrwydd amlwg er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae ein Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn nodi rhaglen o newid i ateb yr heriau hyn yn seiliedig ar y naw egwyddor ganlynol:

- Llais cadarn a rheolaeth go iawn;
- Cefnogi ein gilydd;
- Diogelwch;
- Parch;
- Adfer ac ailsefydlu;
- Addasu i amgylchiadau newydd;
- Sefydlogrwydd;
- Symlrwydd;
- Proffesiynoldeb.

Mae'r rhain wedi eu llywio gan drafodaethau gyda rhanddeiliaid a dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn mannau eraill ers i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* gael ei gyhoeddi. Maent yn bodoli ochr yn ochr â thystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru,

adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i oedolion[1] a'n Hadolygiad o Ddiogelu[2]. Mae'r cyfan yn asgwrn cefn i'n hachos dros newid.

Mae'r dystiolaeth hon, a'r broses o'i hystyried drwy broses graffu'r Cynulliad ar y Bil, wedi llywio a llunio cynnwys y Ddeddf. Mae'r cam nesaf, datblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu'r canllawiau statudol, wedi ei lywio gan gyfraniadau strategol allweddol fel *Mwy na Geiriau*, ein Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol[3], prosiect *Galluogi Cymru* sy'n cynorthwyo'n uniongyrchol y broses o gyflawni a gweithredu *Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol* Llywodraeth Cymru a chan dystiolaeth a gafwyd drwy grwpiau technegol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Mae'r grwpiau hyn wedi edrych ar ddarpariaethau'r Ddeddf, a'r polisi sy'n sail i'r rhain, yn fanwl, a rhoi cyngor i swyddogion ar sut y dylai'r rheoliadau a'r codau ymarfer gael eu llunio er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf a, thrwy hyn, gyflawni gofynion *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu*. Mae'r broses hon wedi sicrhau amrywiaeth o gyfraniadau gwerthfawr y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i ddatblygu'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yr ymgynghorwyd yn eu cylch.

**Y cynnig**

Mae'r cod wedi cael ei gydgynhyrchu gan grŵp technegol o gynrychiolwyr a oedd yn cwmpasu anabledd, anabledd dysgu, gofalwyr, byw'n annibynnol, plant, pobl hŷn, llywodraeth leol, Conffederasiwn y GIG, y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

Mae'r broses o ddatblygu'r cod wedi cael ei goleuo hefyd gan y gwaith datblygu a wnaed yn ystod Cyfres 1. Mae'r gwaith hwnnw wedi atgyfnerthu'r canlynol:

- bod unigolion a'u canlyniadau llesiant yn cael eu gwneud yn ganolog i'r gyfundrefn newydd;
- bod yn rhaid i unigolion gael eu cynorthwyo i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau;
- bod yn rhaid i unigolion fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau;
- bod unigolion yn gallu siarad drostynt hwy eu hunain neu ofyn i rywun wneud hynny ar eu rhan.

Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu eiriolaeth ac yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar y dyletswyddau dan y Ddeddf i sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau person yn cael eu cymryd i ystyriaeth, bod cymorth priodol

[1] http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/adult-social-care.htm
[2] http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/advisory/?lang=cy
[3] http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy

yn cael ei roi a bod pobl yn cael eu cynnwys gymaint â phosibl yn eu gofal a'u cymorth. Mae'r cod felly'n nodi:

- cydnabyddiaeth eglur i fanteision eiriolaeth;
- yr ystod o wasanaethau eirioli sydd ar gael i bobl;
- yr adegau allweddol pan fo'n rhaid i angen pobl am eiriolaeth gael ei asesu;
- yr amgylchiadau a'r amgylcheddau sy'n effeithio ar angen pobl am eiriolaeth;
- pryd y mae'n rhaid darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol;
- yr amgylchiadau pan fo'n amhriodol i rai pobl eirioli;
- y trefniadau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau eirioli;
- y trefniadau codi ffioedd.

Y bwriad yw y dylai'r cod hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r holl godau ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd dan y Ddeddf i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried anghenion pobl am eiriolaeth lle mae awdurdod lleol yn arfer swyddogaeth benodol mewn perthynas â'r person hwnnw.

**Digwyddiadau Ymgynghori**

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori fel rhan o'r broses ymgynghori. Diben y rhain oedd:

- hyrwyddo ymgysylltu â'r ymgynghoriad;
- darparu lefel sylfaenol o ddealltwriaeth am y meysydd yr oeddem yn ymgynghori arnynt i grwpiau o randdeiliaid allweddol.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol gymryd rhan mewn trafodaethau ar weithredu'r rheoliadau, a hefyd i rannu gwybodaeth o'r digwyddiadau gyda'u rhwydweithiau ehangach i ysgogi ymgysylltu dyfnach â'r cynigion a rhychwant ehangach o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 21 Mai yng Ngwesty St George, Llandudno. Cynhaliwyd yr ail ar 4 Mehefin yn Stadiwm Liberty, Abertawe gyda 200 o bobl yn bresennol ar y cyfan, a hwythau'n cynrychioli ystod o sefydliadau. Roedd yr amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolaeth gan y canlynol:

- Cynghrair Henoed Cymru
- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
- Barnardo's Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Plant yng Nghymru
- AGGCC
- Anabledd Cymru
- Anabledd Dysgu Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Byrddau Iechyd Lleol
- CLlLC
- RNIB Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Plant

- Swyddfa’r Comisiynydd Pobl Hŷn

Cynhaliwyd gweithdai yn y digwyddiadau ar bob Rhan o’r Ddeddf yr ymgynghorwyd arni yng Nghyfres 2. Roedd cynnwys y gweithdai hyn wedi’i deilwra i gyd-fynd â'r testun, ond yn greiddiol i bob un roedd cyflwyniad gan swyddogion a thrafodaethau a gweithgareddau grŵp.

Cafodd y sylwadau a’r allbynnau o’r digwyddiadau hyn eu hystyried ochr yn ochr â’r ymatebion ysgrifenedig ffurfiol er mwyn goleuo’r cod ymarfer terfynol ar eiriolaeth.

Cafwyd cyfanswm o 81 o ymatebion. Roedd rhai o’r ymatebion ar ffurf naratif yn unig ac felly nid ydynt yn ymddangos yn y crynodeb o’r ymatebion ticio blychau. Maent i gyd wedi cael ystyriaeth gyfartal o ran y sylwadau a gafwyd. Ceir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A. Ceir crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn Adran 2.

Cyfarfu’r grŵp technegol hefyd trwy’r cyfnod ymgynghori i barhau i sicrhau bod y cod yn gynhwysfawr.

## Adran 2 – Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1:**

| | **1. Ydych chi'n cytuno bod y Cod yn nodi'r bobl y mae'n rhaid darparu eiriolaeth ar eu cyfer?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm 81** | 11 | 26 | 17 | 5 | 22 |

**<u>Crynodeb o'r ymatebion</u>**

Cafwyd cytundeb mwyafrifol, gyda 46% o'r ymatebwyr yn cytuno, bod y cod yn nodi'r bobl y mae'n rhaid darparu eiriolaeth ar eu cyfer. Er bod 27% yn anghytuno, ni wnaeth 27% arall fynegi barn o gwbl. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno'n teimlo mai dim ond disgrifio, yn hytrach na nodi, yr unigolion y mae'n rhaid darparu eiriolaeth ar eu cyfer y mae'r cod.

Ar y cyfan roedd y dull person-ganolog sy'n golygu rhoi sylw i anghenion unigolion yn cael ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol. Fodd bynnag, er mai nodi'r gofynion ar awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau eirioli ar gyfer "unigolion" yw diben y cod, amlygwyd fod y cod fel y mae wedi'i ysgrifennu'n teimlo fel pe bai'n canolbwyntio'n fwy ar oedolion a bod angen cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy. Yn benodol, dylai'r cod gydnabod hawliau presennol plant a sicrhau cysondeb o ran y defnydd o iaith, terminoleg a dull ar draws yr holl grwpiau oedran.

Er bod y cod yn cael ei groesawu, roedd galw am nodi pwysigrwydd llawn rôl eiriolaeth ym mywydau pobl trwy amlygu'n well beth yw manteision eiriolaeth, ac awgrymwyd hefyd y dylai'r canllawiau fod yn fwy penodol a rhestru gwahanol grwpiau o bobl y gallai'r swyddogaethau effeithio arnynt. Diben hyn yw ceisio mynd i'r afael ag anghysonderau canfyddedig o ran comisiynu ar gyfer rhai grwpiau agored i niwed ond nid rhai eraill. Roedd cydnabyddiaeth y gallai fod yn amhosibl llunio rhestr derfynol.

Roedd nifer o ymatebwyr yn falch o weld y gwahanol fathau o eiriolaeth yn cael eu nodi ond roedd lleiafrif yn teimlo y dylid ychwanegu eiriolaeth gyfreithiol a rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd hunan-eiriolaeth.

Roedd ymatebwyr am gael diffiniad mwy eglur o ran pwy na fyddai'n gallu bod yn unigolyn priodol. Mynegwyd pryderon pa un a allai/a ddylai gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr cymorth weithredu fel 'person priodol' ai peidio. Roedd hyn yn canolbwyntio ar y rhai mewn rolau cefnogol, lle mae person sy'n gweithredu er budd pennaf rhywun arall, dan rai amgylchiadau, yn gallu gwrthdaro â barn y person a gynrychiolir, a allai felly arwain at wrthdaro buddiannau.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i gynnwys y 'rhwystrau' ond gyda chais am

gydnabod bod rhwystrau'n berthnasol i amrywiaeth o bobl ag amrywiaeth o namau, nid dim ond anghenion cymhleth heb gymorth ehangach.

Rhoddwyd cefnogaeth i ddiffiniad diwygiedig o'r sefyllfaoedd pan fo'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu eiriolwr fel a nodir yn 4.11 o'r cod drafft.

Er mwyn helpu gyda chyd-destun a dealltwriaeth roedd cefnogaeth i rai enghreifftiau o amgylchiadau lle gallai eiriolaeth fod o fudd i gynorthwyo unigolyn i fynegi ei farn. I ategu hyn ymhellach, roedd ymatebwyr yn gofyn am gynnwys enghreifftiau gweithiol ac astudiaethau achos ymarferol a fyddai o fudd i ymarferwyr. Byddai hyn yn helpu awdurdodau lleol i ddeall pryd y gall unigolion ofyn am gymorth eirioli – y telir amdano ac a ddarperir trwy'r awdurdod lleol – fel hawl.

Er bod egwyddorion y dull partneriaeth yn cael eu croesawu, galwodd ymatebwyr am gryfhau hwn fel nad yw'r penderfyniad ynghylch darparu eiriolaeth ar gyfer unigolyn neu beidio'n cael ei wneud gan y gweithiwr proffesiynol yn unig. Hefyd, roedd dryswch pa un a yw'r cod yn gymwys i'r rhai a ariennir trwy'r awdurdod lleol ac yn peidio â bod yn gymwys i'r rhai a ariennir yn llawn gan y bwrdd iechyd lleol.

**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y dylai'r cod ymarfer gael ei gryfhau i gwmpasu hawliau presennol plant yn well a sicrhau cysondeb o ran y defnydd o iaith, terminoleg a dull ar draws pob grŵp oedran.

Rydym wedi myfyrio ar y gefnogaeth yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad i ddiwygiad y gweithgor technegol i'r diffiniad yr ymgynghorwyd yn ei gylch. Mewn ymateb rydym wedi darparu diffiniad diwygiedig o ran pryd y mae'n rhaid i awdurdod lleol ddarparu eiriolaeth.
Yn yr un modd, mae'r diffiniad o'r rhai a all fod yn unigolyn priodol wedi cael ei wneud yn fwy manwl hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir bod cyfrifoldeb, trwy'r broses o Asesu Anghenion y Boblogaeth, ar wasanaethau Iechyd i ddiwallu anghenion eu poblogaeth ac nad cyfrifoldeb Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig yw hynny.

Yn olaf, mae'r codau ymarfer a'r canllawiau statudol dan y Ddeddf wedi cael eu cryfhau ymhellach i gydnabod rôl gynhenid eiriolaeth ar draws pob agwedd ar lesiant unigolyn.

**Cwestiwn 2:**

| | 2. Ydych chi'n cytuno bod y Cod yn nodi'r ystod o amgylchiadau lle gall fod yn ofynnol darparu eiriolaeth? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm 81** | 9 | 36 | 11 | 2 | 23 |

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd cytundeb mwyafrifol o 56% bod y cod yn nodi'r ystod o amgylchiadau lle gall fod angen eiriolaeth o'i gymharu ag 16% a oedd yn anghytuno.

Er bod nifer o ymatebwyr yn teimlo bod y rhestr yn rhy ragnodol roedd eraill yn cydnabod nad oedd yn rhestr gynhwysfawr a'i bod yn ddefnyddiol bod â chod sy'n weddol eang yn hytrach nag yn gyfarwyddol neu'n rhagnodol.

Amlygodd ymatebwyr amgylchiadau ychwanegol y byddai'n fuddiol eu cydnabod yn eu tyb hwy megis pan fo unigolyn yn yr ysbyty ac nid dim ond "wrth adael yr ysbyty". Ar ben hynny, roedd argymhelliad y dylid ehangu "wrth adael yr ysbyty" i gynnwys pobl nad ydynt o bosibl wedi bod yn aros yn yr ysbyty fel claf mewnol, ond sydd wedi mynd trwy newid sylweddol yn eu hiechyd neu eu galluoedd. Gwnaed ystod eang o awgrymiadau o ran pobl i'w cynnwys ar y rhestr hon ac mae'r rhain wedi cael eu hystyried.

Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai fod yn eglur y dylai amgylchiadau gynnwys yr adeg pan fo person yn dod i gysylltiad â gwasanaethau gofal cymdeithasol am y tro cyntaf ac yna pan fo ar y person angen ail asesiad i bennu ei anghenion o ran gofal o ganlyniad i ddirywiad yn ei gyflwr.

Amlygodd rhai ymatebwyr fod angen paragraff sy'n cydnabod gwerth eiriolaeth fel gwasanaeth ataliol. Dylid nodi bod cynnwys eiriolaeth ar adeg gynnar yn gallu lleihau'r angen am ymwneud gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Mynegwyd cefnogaeth i'r gydnabyddiaeth i fanteision eiriolaeth ac, i ategu'r tabl o swyddogaethau, awgrymwyd ychwanegiad at y rhestr o swyddogaethau gan nodi y dylai'r cod gynnwys mwy o enghreifftiau o'r modd y gallai eiriolaeth fod o fudd i'r unigolyn a'r awdurdod lleol. Er enghraifft, ym maes diogelu, byddai o gymorth nodi, pan geir pryderon ynghylch diogelu, bod rhai o'r materion y bydd eiriolwyr o bosibl yn gallu bod o gymorth gyda hwy'n cynnwys: sicrhau bod yr unigolyn yn deall y broses ac yn cael cymorth priodol; cynrychioli barn y cleient fel rhan o drefniadau Amddiffyn Oedolyn Agored i Niwed/ Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg/ achos Heddlu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd a manteision eiriolaeth ac wedi croesawu'r adborth cynhwysfawr gan ymatebwyr ynghylch y mater hwn.

Bydd eiriolaeth yn cael ei chydnabod fel gwasanaeth ataliol a bydd y cod yn cael ei gryfhau trwy gynnwys enghreifftiau ychwanegol o fanteision ac amgylchiadau – gan egluro nad yw'r rhain yn gynhwysfawr.

Mae'r cod wedi cael ei gryfhau i atgyfnerthu ymhellach y modd y caiff anghenion o ran eiriolaeth eu hadnabod yn ystod yr asesiad o anghenion y boblogaeth a'r gwasanaethau ataliol sy'n deillio o hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig i gynnwys astudiaethau achos fel rhan o ddatblygu'r canllawiau ymarfer nesaf dan y Ddeddf.

**Cwestiwn 3:**

| | **3. Ydych chi'n cytuno bod y Cod yn nodi trefniadau priodol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau eirioli?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm 81** | 7 | 30 | 19 | 2 | 23 |

**<u>Crynodeb o'r ymatebion</u>**

Er bod 46% yn cytuno bod y Cod yn nodi trefniadau priodol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau eirioli roedd galwadau cryf am ddatblygu'r adran hon ymhellach.

Fe wnaed ystod eang o awgrymiadau o ran pethau i'w cynnwys yn yr adran hon o'r cod. Roedd un ymatebydd yn teimlo, er bod y cod yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddarparu gwybodaeth a chyngor ynghylch gwasanaethau eirioli a chyfeirio pobl atynt, nad yw'r cod yn nodi sut y dylid rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau eirioli. Roedd canfyddiad ei fod yn rhoi cyfrifoldeb ar rai darparwyr/gwasanaethau a gomisiynir i gyfeirio defnyddwyr gwasanaethau at wasanaethau eirioli.

Er bod 23 o ymatebwyr heb ddarparu unrhyw sylw, roedd y mwyafrif o 37 yn croesawu'r adran hon o'r cod. Amlygwyd fod cyfle i gryfhau'r cysylltiad â chodau eraill megis Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy.

**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cyhoeddusrwydd i hysbysu defnyddwyr gwasanaethau pa wasanaethau eirioli sydd ar gael iddynt. Mae'r Cod wedi cael ei gryfhau i sicrhau cydnabyddiaeth i wybodaeth mewn fformatau hygyrch sy'n addas ar gyfer yr ystod o bobl gan gynnwys y grwpiau anoddaf i'w cyrraedd. Mae'n atgyfnerthu cyfrifoldebau darparwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu gyda'r unigolyn, ei ddeall ac ymgysylltu ag ef mewn modd effeithiol.

O ganlyniad i adborth, mae'r cod yn nodi'n fwy eglur y cysylltiadau â dyletswyddau cyffredinol awdurdodau lleol dan y Ddeddf.

**Cwestiwn 4:**

| | **4. Ydych chi'n cytuno y bydd y Cod yn cynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei darparu i helpu pobl i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm 81** | 11 | 28 | 14 | 2 | 26 |

**<u>Crynodeb o'r ymatebion</u>**

Roedd ymatebwyr yn cytuno ar y cyfan (48%) y bydd awdurdodau lleol, drwy'r cod, yn cydnabod mor bwysig ydyw bod gwasanaethau eirioli'n annibynnol ar ddarparwyr gwasanaethau i alluogi pobl i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau'n llawn. Fodd bynnag roedd hyn yn amodol ar egluro materion a godwyd ynghylch unigolyn priodol ac eiriolwr annibynnol fel a nodir yng Nghwestiwn 1.

Er bod cefnogaeth, roedd cydnabyddiaeth eang bod diffyg gwasanaethau eirioli'n gyffredinol yng Nghymru yn enwedig i'r rhai ac arnynt angen gwasanaethau mwy arbenigol. Yn gysylltiedig â'r gydnabyddiaeth hon mae'r pryder ynghylch y capasiti a'r cyllid sydd ar gael. Yn benodol, roedd un ymatebydd a oedd yn anghytuno'n teimlo ei bod yn bosibl nad oes nifer addas o wasanaethau eirioli i atgyfeirio pobl atynt, ac y bydd angen ystyried cyllid ar gyfer eiriolaeth.

Roedd rhai o'r 28 o ymatebwyr a oedd yn tueddu i gytuno'n teimlo bod y pwyslais, nid ar ddarparu eiriolwr proffesiynol annibynnol, ond ar archwilio pob opsiwn arall yn gyntaf. Oherwydd pwysau ariannol, gallai hyn arwain at sefyllfa lle mae gweithwyr proffesiynol yn rhoi anogaeth i ddefnyddio aelodau o'r teulu neu ffrindiau sydd o bosibl â chysylltiad personol â'r materion.

Mae ychydig o ymatebwyr megis Barnardo's a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn credu y dylai fod cynnig gweithredol i ddarparu eiriolaeth ar gyfer unigolion ag anghenion o ran gofal a chymorth a gofalwyr ag anghenion o ran cymorth.

Roedd galwad am roi'r Cod ar waith ar draws yr holl asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Hefyd, byddai o gymorth pe bai'r gorgyffwrdd rhwng deddfwriaeth hawliau e.e. Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Addysg ac Iechyd Meddwl yn cael ei bwysleisio a'i gydnabod yn fwy.

**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**

Mae ein hymateb i gwestiwn 1 yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i roi eglurhad mewn perthynas â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch unigolyn priodol ac eiriolwr annibynnol.

Fel elfen newydd o’r fframwaith diwygiedig, ceir cydnabyddiaeth gyffredin i’r angen i ddatblygu capasiti a chynaliadwyedd y ddarpariaeth. Mae’r cod wedi cydnabod ac atgyfnerthu hyn trwy sefydlu eiriolaeth drwy’r holl godau ymarfer a chanllawiau statudol dan y Ddeddf i gydnabod ymhellach rôl gynhenid eiriolaeth ar draws pob agwedd ar lesiant unigolyn. Mae’r cod yn atgyfnerthu ymhellach sut y gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd gomisiynu gwasanaeth effeithiol a defnyddio canlyniadau asesiadau o anghenion y boblogaeth fel rhan o’u cyfrifoldeb ar y cyd am bartneriaeth a chydweithredu dan ran 9 gan gynnwys cyllidebau cyfun.

Mae model ar gyfer cynnig gweithredol wrthi’n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy’n derbyn gofal ac unigolion penodedig eraill. Bydd canlyniadau’r gwaith hwnnw’n cael eu hystyried yn dilyn eu cyflwyno i’r Gweinidog ynghyd â’r gallu i’w hadlewyrchu mewn gwaith mwy hirdymor i ddatblygu’r cod hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau’r cod ynghylch gwasanaethau eirioli presennol. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl bartïon yn rhoi ystyriaeth ddyledus i sicrhau, lle mae hawliau eiriolaeth statudol yn gorgyffwrdd, yr eir ati i sicrhau’r cyfle mwyaf posibl i sicrhau parhad o ran diwallu anghenion unigolyn am eiriolaeth heb ddyblygu’r prosesau y mae angen i’r unigolyn fynd drwyddynt.

**Cwestiwn 5:**

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?** |
|---|
| **<u>Crynodeb o'r ymatebion</u>**<br><br>Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn croesawu'r cod ac yn teimlo y byddai'r cynigion a oedd wedi'u nodi'n cael effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig gyda rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r grwpiau y maent yn eu cynrychioli gael budd mawr.<br><br>Roedd teimlad mai un o ganlyniadau cadarnhaol y cod yw y bydd yn hybu hawliau grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig, trwy ei gwneud yn bosibl i'w llais gael ei glywed, yn enwedig os yw unigolion yn pryderu eu bod yn dioddef gwahaniaethu, a hefyd trwy roi mwy o ddewis a rheolaeth iddynt.<br><br>Gan mai un o brif ganlyniadau eiriolaeth yw llesiant gwell i unigolion, byddai'r cynigion hyn mewn perthynas ag eiriolaeth o fudd sylweddol i bawb sy'n gymwys i gael cymorth i adnabod a chyflawni eu canlyniadau llesiant personol, ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig.<br><br>Er bod y mwyafrif yn teimlo bod hyn yn gadarnhaol rhybuddiwyd na fyddai'r cynigion o bosibl ond yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp â nodweddion gwarchodedig os yw'r gwasanaethau ar gael yn rhwydd.<br><br>Amlygodd cyfran o'r ymatebwyr y dylai'r anghyfartalwch rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion o ran pa mor ddatblygedig ydynt gael ei nodi ac na ddylai materion mewn perthynas â chyllid ar gyfer comisiynu gwasanaethau gael eu hanwybyddu.<br><br>Un amheuaeth oedd y canfyddiad, er bod y cod yn nodi ei fod yn gwneud y person a'i lesiant yn ganolog i'r fframwaith newydd hwn ac yn rhoi llais a rheolaeth iddo o ran y modd y cyflawnir y canlyniadau hynny *('places the person and their well-being at the centre of this new framework and gives them a voice in, and control over achieving those outcomes'),* bod pobl yn methu canfod cyfeiriad at faterion cydraddoldeb/ gwrthwahaniaethu yn y cod.<br><br>**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**<br><br>Bu Llywodraeth Cymru yn myfyrio dros yr ymatebion a gafwyd ac mae wedi dod i'r casgliad y bydd y cod yn cael ei gryfhau i fynd i'r afael â rhai o'r materion dan sylw.<br><br>Bydd mwy o wybodaeth am fanteision eiriolaeth, ystyriaeth bellach i'r rhwystrau a diffiniad diwygiedig i ddynodi pryd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol drefnu eiriolwr gyda mwy o wybodaeth y dylai penderfyniadau gael eu gwneud yn strategol i gydnabod bod gwasanaethau eirioli'n hanfodol i gynorthwyo pobl i ymgysylltu'n weithredol a chyfranogi yn natblygiad eu |

canlyniadau llesiant.

Bydd adran fanylach ar eiriolaeth ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a phlant penodedig eraill yn cael ei chynnwys. Ar ben hynny, rydym yn bwriadu cynnwys gwybodaeth sy’n nodi rôl yr eiriolwr annibynnol a rôl yr awdurdod lleol o ran cefnogi’r eiriolwr.

**Cwestiwn 6:**

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?** |
|---|
| **<u>Crynodeb o'r ymatebion</u>**<br><br>Ymatebodd nifer o ymatebwyr heb ymhelaethu ond roedd nifer a grybwyllodd yn benodol fod gan y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn y potensial i gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hyn trwy sicrhau mynediad at eiriolwr i'w cynorthwyo i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u barn am eu gofal cymdeithasol.<br><br>Amlygodd nifer fach o ymatebwyr fod y diffyg cyfeiriad at y grwpiau gwarchodedig yn y ddogfen yn awgrymu nad ydynt yn grwpiau sy'n cael blaenoriaeth.<br><br>Roedd disgwyliad, os yw awdurdodau lleol yn methu â rhoi cyhoeddusrwydd mewn modd effeithiol i wasanaethau eirioli a hawl pobl i gael gwasanaeth eiriolwr, mewn ystod o fformatau hygyrch, bod gan hyn y potensial i allgáu rhai grwpiau penodol megis y rhai sydd â nam a/neu anabledd dysgu trwy beidio â'u hysbysu ynghylch eu hawliau, neu ynghylch gwasanaethau sydd ar gael.<br><br>Amlygodd un ymatebydd yr angen i fod yn ymwybodol, er bod eiriolaeth o fudd i'r holl grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig mewn llawer o achosion, y gall eiriolaeth annibynnol generig fod yn ddigon. Fodd bynnag, bydd ar rai angen eiriolaeth ddiwylliant-benodol (gan gynnwys materion rhywioldeb neu newid rhyw) neu nam-benodol (e.e. pobl nad ydynt yn niwro-nodweddiadol) i sicrhau bod eu gofynion am gymorth i adnabod a chyflawni eu canlyniadau llesiant personol yn cael eu deall yn drylwyr. Er mwyn lleihau'r risg o effeithiau negyddol dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddatblygu adnodd ar gyfer comisiynu eiriolaeth.<br><br>**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**<br><br>Mae'r Ddeddf yn eglur o ran egwyddor rhoi cymorth i alluogi pobl i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Mae'r cod wedi cael ei gryfhau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydnabod y rhwystrau i'r canlyniadau y maent yn eu ceisio ar gyfer unigolion.<br><br>Mae'r ymateb i gwestiwn 3 yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyhoeddusrwydd effeithiol i wasanaethau eirioli. |

**Cwestiwn 7:**

| **Bydd ailgydbwyso'r system gofal a chymorth i gyflawni'r fframwaith cyfreithiol newydd yn galw am ailflaenoriaethu adnoddau. Beth yw'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i gyflawni hyn?** |
|---|
| **<u>Crynodeb o’r ymatebion</u>**<br><br>Roedd cefnogaeth gref i sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei chydnabod ac yn cael blaenoriaeth uchel gan bawb oherwydd y rhan bwysig y mae’n ei chwarae (neu y gall ei chwarae) ym mywydau pobl.<br><br>Fodd bynnag, er bod cydnabyddiaeth i bwysigrwydd eiriolaeth roedd consensws cyffredinol bod diffyg difrifol o ran gwasanaethau eiriolaeth ledled Cymru gyda gwasanaethau amrywiol yn ardal pob awdurdod lleol ledled y wlad. Awgrymwyd y bydd angen newid mewn diwylliant a chyllid i alluogi gwasanaethau annibynnol arbenigol, hirdymor, cynaliadwy i ddatblygu.<br><br>Cafodd argaeledd cyllid ac adnoddau hirdymor digonol ei amlygu dro ar ôl tro i sicrhau bod y cod yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus a bod hyfforddiant llwyddiannus yn cael ei ddarparu mewn perthynas ag ef.<br><br>Roedd cydnabyddiaeth bod angen i’r Broses/Cynlluniau comisiynu adlewyrchu’r Ddeddf ehangach a bod yn seiliedig ar asesiad o anghenion y boblogaeth.<br><br>Roedd rhai’n teimlo bod angen mwy o gyfarwyddyd mewn perthynas â chyfathrebu ynghylch eiriolaeth; er bod y Cod yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi cyhoeddusrwydd i’r gwasanaethau mae’n rhoi’r cyfrifoldeb yn bennaf i awdurdodau lleol benderfynu sut i gyflawni’r ddyletswydd honno.<br><br>Rhannodd nifer fach o ymatebwyr bryderon, er bod y Ddeddf wedi’i bwriadu i fod yn gymwys i bawb ni waeth beth fo’u hoedran, y dylid pwyllo o ran y potensial i alinio gwasanaethau eirioli â’r dull sy’n berthnasol i bob oedran yn y Ddeddf gan y gallai hyn arwain at gyfeirio cyllid ac adnoddau i ffwrdd oddi wrth blant lle maent yn bodoli ar hyn o bryd.<br><br>**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**<br><br>Roedd Llywodraeth Cymru yn croesawu’r adborth ar y mater hwn.<br><br>Fel elfen newydd o’r fframwaith diwygiedig, ceir cydnabyddiaeth gyffredin i’r angen i feithrin capasiti a chynaliadwyedd o ran y ddarpariaeth. Mae’r cod wedi cydnabod ac atgyfnerthu hyn trwy sefydlu eiriolaeth drwyddi draw yn yr holl godau ymarfer a chanllawiau statudol dan y Ddeddf i gydnabod ymhellach rôl gynhenid eiriolaeth ar draws pob agwedd ar lesiant unigolyn. Mae’r cod yn atgyfnerthu ymhellach sut y gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd gomisiynu gwasanaeth effeithiol a defnyddio canlyniadau asesiadau o anghenion y boblogaeth fel rhan o’u cyd-gyfrifoldeb am bartneriaeth a chydweithio dan ran 9 gan gynnwys cyllidebau cyfun. |

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y dylai’r cod ymarfer gael ei gryfhau i gwmpasu hawliau presennol plant yn well a sicrhau cysondeb o ran y defnydd o iaith, terminoleg a dull ar draws pob grŵp oedran.

Gan gydnabod yr hawliau statudol bydd adran fanylach ar eiriolaeth ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a phlant penodedig eraill yn cael ei chynnwys. Ar ben hynny, rydym yn bwriadu cynnwys gwybodaeth sy’n nodi rôl yr eiriolwr annibynnol a rôl yr awdurdod lleol o ran cefnogi’r eiriolwr.

**Cwestiwn 8:**

| **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod inni amdanynt.** |
|---|
| **Crynodeb o'r ymatebion**<br><br>Byddai'n cael ei groesawu pe bai cydnabyddiaeth ei bod yn arfer da i eiriolwyr barhau i chwarae rhan am yn ddigon hir i berson fyfyrio ar benderfyniad a wnaed neu ar newid, rhag ofn bod ar yr unigolyn angen gwneud addasiadau neu roi adborth am y broses.<br><br>Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod toriadau mewn cyllid a'r gystadleuaeth am grantiau elusennol ledled Cymru eisoes wedi arwain at ostyngiad yn nifer y gwasanaethau eirioli annibynnol ac, felly, eiriolwyr proffesiynol profiadol. Mae'r cod felly i'w weld fel pe bai'n diystyru'r amser, arian ac ymdrech a gaiff eu harbed trwy ddefnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol profiadol.<br><br>Roedd lleiafrif yn teimlo siom nad yw Llywodraeth Cymru yn rheoleiddio mewn perthynas ag eiriolaeth. Roeddent hefyd yn amlygu bod diffyg cyfeiriad at hawliau a byw'n annibynnol o fewn y Ddeddf ei hun a'r Codau Ymarfer a'r rheoliadau. Hefyd, nid oes cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.<br><br>Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o ffocws ar hunaneiriolaeth gan fod teimlad mai dyma'r ffordd bwysicaf o gynnal y dewis a'r rheolaeth a hybir yn y Ddeddf. Roeddent yn amlygu bod hunaneiriolaeth nid yn unig yn hybu hawliau unigolyn i siarad drosto'i hun ond y gall hefyd fod yn drefniant sydd o fudd i'r ddwy ochr yn yr ystyr bod grwpiau hunaneiriolaeth yn gallu cynnig adborth cyfunol i awdurdodau lleol i hysbysu penderfynwyr ynghylch materion sy'n effeithio ar y rhai nad ydynt yn gallu mynegi eu barn i'r un graddau ag y mae pobl eraill yn gallu gwneud. Dylai awdurdodau lleol hybu hunaneiriolaeth mewn gwasanaethau lleol a dylent weithio gyda byrddau lleol AGGCC ac AGIC i asesu pa mor dda y mae hyn yn digwydd.<br><br>Roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo bod yr iaith a'r enghreifftiau a ddarperir yn y cod yn peidio â chynnwys plant, yn enwedig pryderon unigryw plant a phobl ifanc, yn enwedig plant sy'n derbyn gofal, mewn perthynas ag eiriolaeth.<br><br>Roedd nifer o sylwadau a gafwyd yn canolbwyntio ar yr angen i'r disgwyliadau yn y cod beidio â chael eu hystyried yn swyddogaethau i wasanaethau cymdeithasol yn unig. Mae'n hanfodol bod yr asesiad o'r boblogaeth sy'n ofynnol dan y Ddeddf a'r Cod Eiriolaeth yn cael ei ddeall yn eglur fel cydgyfrifoldeb, a bod Byrddau Iechyd yn llwyr ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth.<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru**<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn hybu annibyniaeth pobl i roi iddynt lais cryfach a mwy o reolaeth dros y ffordd y caiff |

gwasanaethau cymdeithasol eu darparu. Dylai eiriolaeth gael ei hystyried yn rhan gynhenid o'r Ddeddf, gan ei bod yn helpu pobl i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau ac i wneud penderfyniadau ynghylch eu llesiant.

Mae ein hymateb i gwestiwn 7 yn atgyfnerthu'r camau gweithredu a gymerwyd trwy'r cod i ddefnyddio tystiolaeth o asesiadau o anghenion y boblogaeth fel sail i ddarparu'r ystod lawn o eiriolaeth fel rhan o'r gwasanaethau ataliol a'r cymorth i ddiwallu anghenion.

Mae'r cod yn cydnabod holl ehangder yr eiriolaeth sydd ar gael i unigolion fel a gytunwyd gyda'r gweithgor technegol.

Wrth weithio gyda'r gweithgor technegol penderfynodd Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy cynhwysfawr o ddarparu cymorth eirioli. Yn hytrach na rhagnodi cymorth eirioli trwy reoliadau yn seiliedig ar amgylchiadau a phobl, fe sefydlon ni ystyriaeth i gymorth eirioli drwy'r Ddeddf i gyd yn seiliedig ar anghenion pobl yn hytrach nag o fewn cyfyngiadau'r pwerau i wneud rheoliadau.

Mae'r cod felly'n ategu codau eraill a gyhoeddwyd dan y Ddeddf trwy nodi'r fframwaith trosfwaol ar gyfer adnabod a diwallu anghenion oedolion, gofalwyr a phlant am eiriolaeth ar adegau allweddol yn eu siwrne tuag at y canlyniadau llesiant sydd o bwys iddynt.

Mae'n atgyfnerthu ac yn adeiladu ar y dyletswyddau dan y Ddeddf i sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau person yn cael eu cymryd i ystyriaeth, bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu a bod oedolion, gofalwyr a phlant yn cael eu cynnwys yn gymaint â phosibl yn y broses o bennu eu hanghenion o ran gofal a chymorth. Yng ngoleuni'r ymatebion cyfyngedig iawn gan ymatebwyr yn gofyn am arfer y pwerau i wneud rheoliadau, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cod ymarfer yn unig.

Mewn perthynas â'r sylwadau am y cyfeiriadau at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, mae hyn wedi'i gynnwys yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2, sy'n gosod gofynion ar awdurdodau lleol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl wrth arfer unrhyw swyddogaethau dan y Ddeddf.

## Dadansoddiad Llywodraeth Cymru

Cafwyd cefnogaeth sylweddol i god ymarfer pwrpasol ar eiriolaeth a chefnogaeth gref i gynnwys y cod fel y mae wedi'i ddrafftio. Adnabuwyd rhai meysydd i'w hegluro a'u mireinio a fydd yn goleuo cod drafft diwygiedig. Mae'r rhain yn perthyn i dri phrif faes:

a. mwy o gydnabyddiaeth i hawliau statudol ac anstatudol presennol plant a phobl ifanc;
b. cyhoeddusrwydd i eiriolaeth;
c. diffiniad pellach o "unigolyn priodol" ac annibyniaeth yr eiriolwr.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r sylwadau hyn gan eu bod wedi darparu tystiolaeth a fydd yn sail i fireinio'r cod ymarfer terfynol.

Mewn perthynas â'r sylwadau ar y cyfeiriadau at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, mae hyn wedi'i gynnwys yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2, sy'n gosod gofynion ar awdurdodau lleol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl wrth arfer unrhyw swyddogaethau dan y Ddeddf. Wrth arfer eu dyletswyddau mewn perthynas ag eiriolaeth mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddilyn y gofynion a nodir yn y cod ymarfer ar Ran 2 hefyd.

## a. Plant

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cydnabod bod hawliau presennol plant sy'n derbyn gofal ac eraill i eiriolaeth dan Ddeddf Plant 1989 y tu allan i gwmpas y cod ymarfer. Er bod cydnabyddiaeth hefyd i'r ffrwd waith ar wahân ar ddull cenedlaethol mewn perthynas ag eiriolaeth ar gyfer plant roedd galwad am gwmpasu'r hawliau statudol presennol o fewn y cod yn awr yn hytrach nag ar ôl i'r gwaith ar ddull cenedlaethol gael ei gwblhau.

Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hyn yn her sylweddol o ystyried amseriadau'r ffrydiau gwaith. Mae felly wedi penderfynu cynnwys yr elfennau craidd o'r canllawiau statudol presennol ynghylch eiriolaeth statudol i blant yn y cod ymarfer ynghylch eiriolaeth a fyddai, fel isafswm, yn cynnal yr hawliau presennol o fis Ebrill 2016.

Mae'r newid hwn yn darparu'r cynnwys eglur sy'n gysylltiedig â phlant y gofynnwyd amdano yn yr ymgynghoriad gan gydnabod y gwahaniaeth sylweddol mewn amseriad rhwng y ddau brosiect.

## b. Cyhoeddusrwydd

Er bod yr adran hon o'r cod wedi'i goleuo gan y gweithgor technegol, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnig cyfle ychwanegol i'w datblygu a'i mireinio ymhellach. Yr adborth dilynol oedd bod yr adran hon yn cael ei chroesawu a'i bod yn gynhwysfawr, ond y byddai cynnwys ychwanegol yn cryfhau'r cod ymhellach.

Mae ymatebwyr wedi darparu amrywiaeth gynhwysfawr o wybodaeth am y mater hwn i ni ei hystyried. Ymhlith y materion ychwanegol i'w cynnwys mae fformatau hygyrch sy'n addas ar gyfer yr ystod o bobl gan gynnwys y grwpiau anoddaf i'w cyrraedd ynghyd â chyfrifoldebau darparwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu gyda'r unigolyn, ei ddeall ac ymgysylltu ag ef mewn modd effeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i sicrhau cydlyniad â threfniadau tebyg dan y Ddeddf a chod ymarfer arall/codau ymarfer eraill megis gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ac mae wedi gwneud y gwaith hwn yn unol â hynny.

## c. Annibyniaeth a Phriodoldeb

Un o elfennau craidd y cod drafft oedd y gofyniad i awdurdod lleol sicrhau eiriolwr proffesiynol annibynnol lle nad oes unigolyn priodol (e.e. teulu, ffrindiau neu rwydwaith cymorth ehangach) yn gallu eirioli ar ran unigolyn neu lle y byddai'n amhriodol defnyddio unigolyn o'r fath am ei fod yn gysylltiedig â'r pryderon sy'n effeithio ar angen y person am ofal a chymorth.

O'r ymatebion a gafwyd roedd galwad cryf am eglurhad pellach o'r hyn y gellid ei ystyried yn annibynnol a phwy ddylai fod yn unigolyn priodol / amhriodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad i oleuo'r cod ymarfer terfynol.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

| Rhif | Cyfrinachol I | / N | Enw | Sefydliad/ Ar ran |
|---|---|---|---|---|
| 1 | * | | | |
| 2 | | * | Dawn Price | RCT People First Limited |
| 3 | * | | | |
| 4 | | * | Dawn Price | Pobl yn Gyntaf Rhondda – Grŵp Bynna Jones |
| 5 | * | | | |
| 6 | | * | Dawn Price | Pobl yn Gyntaf Blaenau Gwent |
| 7 | | * | Denise Inger | SNAP Cymru |
| 8 | | * | Richard Williams | Action on hearing loss cymru |
| 9 | * | | | |
| 10 | | * | Susi de Lacey | Elusen Eiriolaeth Iechyd Meddwl Eiriol |
| 11 | | * | Mr John Miles; Mr Thomas Clark | Sefydliad Disability Can Do |
| 12 | | * | Beth Evans | Gyrfa Cymru |
| 13 | | * | Kathy Slinn | Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru / Lleisiau Lleol |
| 14 | | * | Jane Lane | Advocacy Matters (Cymru) |
| 15 | | * | Pat Dunmore | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| 16 | | * | Daphne Rose | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 17 | * | | | |
| 18 | | * | Denise Inger | Grŵp gwirfoddoli SNAP Cymru gyda rhieni |
| 19 | | * | Susi de Lacey | Rhwydwaith Strategaeth Eiriolaeth y Tair Sir |
| 20 | | * | Susanne Maddax | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, Cadeirydd Cynghrair Iechyd a Gofal Cymdeithasol Trydydd Sector Caerffili |
| 21 | | * | Sarah Payne | Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr |
| 22 | | * | Yr Athro Sally Holland | Comisiynydd Plant Cymru |
| 23 | | * | Rhian Huws Williams | Cyngor Gofal Cymru |
| 24 | | * | Adrian Roper | Fforwm Datblygu Cwmnïau Cydweithredol Cymdeithasol Cymru |
| 25 | | * | Lynn Howells | Elusen Eiriolaeth Iechyd Meddwl Eiriol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **26** | | * | Mike McCarthy | Pobl yn Gyntaf Powys |
| **27** | | * | Louise Hughes | Y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Pobl Hŷn yng Nghymru |
| **28** | | * | Ruth Northway a Sopgie Hinksman | Y Grŵp Cynghori ar Anabledd Dysgu |
| **29** | | * | Caroline Oakley | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **30** | | * | Joe Powell | Pobl yn Gyntaf Cymru |
| **31** | | * | Angela Broadbridge | Cynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn |
| **32** | | * | Wayne Crocker | Mencap Cymru |
| **33** | | * | Cathy Murray | Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe |
| **34** | | * | Ellie Munro | Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor |
| **35** | | * | Eunice Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| **36** | * | | | |
| **37** | | * | Gareth Llwyd | Cyngor Sir Ynys Môn |
| **38** | * | | | |
| **39** | | * | Sharon Lovell | Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol |
| **40** | | * | Susan Cooper | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **41** | | * | Dave Street | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| **42** | | * | Eirian Wynne | Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr (Gogledd Orllewin Cymru – Ynys Môn, Conwy a Gwynedd) |
| **43** | | * | Carol Floris | Voices from care |
| **44** | | * | Pauline Young | Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu |
| **45** | | * | Tess Saunders | RNIB |
| **46** | | * | Stephen Harris, Mari Ropstad, Nicola Benney, Alwena Pearson | Canolfan Byw'n Annibynnol Dewis |
| **47** | | * | Sarah Durrant | Tros Gynnal Plant |
| **48** | | * | Tim Ruscoe | Barnado's Cymru |
| **49** | | * | Dr Catrin Mair Edwards | SENSE cymru |
| **50** | | * | Dr. Catrin Edwards | Cynghrair Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru |
| **51** | | * | Dr Rosanne Palmer | Age Cymru |
| **52** | | * | Helen Evans | Trydydd Sector Bae'r Gorllewin |
| **53** | | * | Helen Evans | Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Castell-nedd Port Talbot |
| **54** | | * | Stephanie Hoffman | MEIC |
| **55** | | * | Professor Judith E Hall OBE | AGGCC |
| **56** | | * | Carol Walker | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **57** | | * | Jean Davies | Cyngor Sir Penfro |
| **58** | | * | Alice Southern | Cymdeithas Alzheimer’s |
| **59** | | * | Natasha Hughes/Stephanie O’Donnell | Cyngor Sir Ddinbych |
| **60** | | * | Leighton Rees | Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan |
| **61** | | * | Jeff Hawkins | AGE CONNECTS CYMRU |
| **62** | | * | Neil Ayling | Cyngor Sir y Fflint |
| **63** | | * | Mark Saunders | Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gwent Fwyaf |
| **64** | | * | Ele Hicks | Diverse Cymru |
| **65** | | * | Nicola Evans | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **66** | * | | | |
| **67** | | * | Paul Swann | Disability Wales / Anabledd Cymru a Fforwm Dinasyddion a Darparwyr Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth dan Gyfarwyddyd y Dinesydd |
| **68** | | * | Sue Evans | ADSS Cymru |
| **69** | | * | Nichola Poole | Cynghorau Dinas Caerdydd a Bro Morgannwg |
| **70** | | * | Sara Harvey | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae’r Gorllewin |
| **71** | | * | Owen Williams | Fforwm Golwg Cymru |
| **72** | | * | Mary Wimbury | Fforwm Gofal Cymru |
| **73** | | * | Joanna Robinson | Ymddiriedolaeth Goroeswyr Cymru |
| **74** | * | | | |
| **75** | | * | Sean O'Neill | Plant yng Nghymru |
| **76** | | * | Sean O'Neill | Grŵp Darparwyr Eiriolaeth a Grŵp Ymarferwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc |
| **77** | | * | Kieran Rees | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru |
| **78** | | * | Cheryl Evans | Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru |
| **79** | | * | Jan Lilley | Gwasanaethau Eiriolaeth Annibynnol BCA |
| **80** | | * | Rhian Stangroom-Teel | Leonard Cheshire Disability |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **81** | | * | Alice Owen | Cymdeithas y Cyfreithwyr |